Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2018 yn Nhŷ Hywel, Caerdydd

Yn bresennol: Miranda Evans (Anabledd Cymru), Martyn Jones (Tai Pawb), Peter Jones (Guide Dogs UK), Jon Day (Gofal Cymdeithasol Cymru), Jamie Westcombe (EHRC), Nathan Davies (Cyflwynydd), Simon Green (Cyflwynydd), Owen Williams (Cyngor Cymru i'r Deillion), Rebecca Phillips (Cyngor Cymru i'r Deillion - cofnodion), Rhian Davies (Anabledd Cymru), Wendy Ashton (Anabledd Cymru), Trevor Palmer, Zoe Richards (Anabledd Dysgu Cymru), William Fawcett, Heidi Lythgoe , Adele Rose-Morgan, Danni Richards (Plant yng Nghymru), Tim Ruscoe (Barnardos), Joe Powell (Pobl yn Gyntaf Cymru), Karen Warner (Anabledd Dysgu Cymru), Felix Shi (Anabledd Cymru), Jayne Simonson (Whiz Kids), Wendy Hobbs, Tony Curtis MBE, Lynne Neagle AC, Suzy Davies AC.

Ymddiheuriadau: Mark Isherwood AC, Llyr Gruffydd AC, Siân Gwenllian AC, Bethan Sayed AC, Simon Thomas AC

1. Croeso a chyflwyniadau
Cadeiriodd OW y cyfarfod yn absenoldeb Mark Isherwood AC. Nid oedd MI yn gallu bod yn bresennol oherwydd profedigaeth deuluol ac estynnodd y Grŵp eu cydymdeimlad ato.

Rhoddodd y Cadeirydd fraslun o bwrpas y Grŵp.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol.
Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

Cynigiwyd gan: Rhian Davies
Eiliwyd gan: Trevor Palmer

3. Materion yn codi o'r cofnodion
Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

4. Sgyrsiau:

Tystysgrif Mynediad - Simon Green, Cynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Cynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflwyno'r syniad o gael Tystysgrif Mynediad, sef system sgorio ar gyfer lleoedd cyhoeddus a fyddai'n dangos pa mor hygyrch ydynt i bobl ag anableddau. Byddai'n debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd, ac yn rhoi sgôr o rhwng 0 a 5 i adeiladau. Byddai symbolau'n cyd-fynd â'r sgôr hefyd, i ddangos y camau a gymerwyd i wella hygyrchedd, ee bwydlenni print bras, toiled hygyrch, hyfforddiant staff, dolen glyw ac yn y blaen. Drwy ddangos y sgôr a'r symbolau yn y ffenestr flaen, byddai ymwelwyr yn gwybod, cyn mynd i mewn, a fyddai'r adeilad yn ddigon hygyrch iddynt.

Teimlai Simon y gallai cwmnïau trafnidiaeth fabwysiadu'r syniad yn y pen draw, a rhoi gwybod i deithwyr faint o le oedd ar gael ar gyfer cadeiriau olwyn, neu a oeddent yn gwneud cyhoeddiadau sain / fideo ac yn y blaen.

Cofrestrwyd y ddeiseb gyda Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd ac roedd Simon yn falch o nodi bod nifer o Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn gefnogol i'r syniad.

Bydd y system sgorio'n deg a chaiff ei haddasu'n ôl maint a natur y busnes ond bydd hefyd yn ystyried y cyfyngiadau ymarferol. Mae rhai busnesau wedi'u lleoli mewn adeiladau rhestredig sy'n ei gwneud yn anodd iddynt wneud yr addasiadau angenrheidiol. Gallant, fodd bynnag, ddarparu dolen glyw, bwydlenni print bras neu sicrhau bod eu staff wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl.

Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i ddatblygu'r syniad ac roedd Simon yn awyddus i bobl anabl i fod yn rhan ohono.

Mae'n gobeithio y bydd 5000 yn llofnodi'r ddeiseb, sef y nifer sydd ei angen i sicrhau dadl yn Senedd. Os caiff y syniad ei gymeradwyo, bydd llyfryn byr yn cael ei gynhyrchu i roi gwybod i fusnesau am y gwahanol ffyrdd y gallant wella hygyrchedd a bydd hefyd yn eu cyfeirio at sefydliadau a all eu helpu i wneud hynny. Roedd Simon yn cydnabod hefyd y byddai angen cyllid i roi'r prosiect ar waith.

Wrth gloi, ychwanegodd Simon fod y Pwyllgor Deisebau wedi'i chyfeirio at y Gweinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies, a'u bod yn aros am ei ymateb. Mae'r ddeiseb ar agor tan ddiwedd mis Mawrth.

Cytunodd Simon i anfon ei fanylion cyswllt, y dystysgrif a'r linc i'r ddeiseb ar-lein ar aelodau'r Grŵp.

Sylwadau o'r llawr:

Dywedodd Plant yng Nghymru wrth y Grŵp fod ganddynt brosiect ar waith o'r enw ‘Cymru Ifanc' sy’n rhoi cyfle i bobl ifanc asesu gwasanaethau awdurdodau lleol ac ysgrifennu adroddiad arnynt. Teimlai DR y gellid efelychu’r syniad hwn. O ran codi arian, cafwyd awgrymiadau tebyg i brosiect 'Can Do'.

Yn dilyn y prosiect Changing Places, cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol 12. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei basio a theimlai'r grŵp y dylai gefnogi'r ymgyrch hygyrchedd.

Awgrymwyd y dylid sicrhau bod yn prosiect yn un syml a chyraeddadwy er mwyn annog busnesau i fod yn rhan o’r prosiect. Roedd angen i’r Grŵp gofio bod y Ddeddf Cydraddoldeb yn sicrhau nad oedd neb yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl a bod busnesau wedi cael degawdau i fynd i'r afael â'r mater. Roedd yn bwysig peidio â cholli golwg ar y ffaith mai hawliau sydd gan bobl anabl eisoes yw’r rhain. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb ar yr unigolyn o hyd i herio achosion o wahaniaethu.

Dywedodd SD wrth y grŵp fod dadl fer amhleidiol wedi’i chynnal er mwyn cael y casgliadau cychwynnol gan Ysgrifennydd y Cabinet. Cafwyd awgrym cryf ei bod yn cefnogi’r syniad a gwahoddodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd i ddechrau ystyried sut y gellid rhoi’r prosiect ar waith. Teimlai ei fod yn gyfle i'r sector gymryd yn awenau ac anogodd y Grŵp i fod yn gyfrifol amdano’n hytrach na’i drosglwyddo i Awdurdod Iechyd. Mae'r egwyddor wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol.

Trychineb anochel – dod â Grant Byw'n Annibynnol i ben yn fuan - Nathan Davies

Ym mis Rhagfyr 2012, penderfynodd y Llywodraeth Geidwadol i ddod â'r Grant Byw'n Annibynnol i ben a chytunwyd ar drefniadau interim gydag Awdurdodau Lleol. Pwrpas y gronfa oedd cynorthwyo pobl sydd ag anghenion sylweddol i fyw’n annibynnol. Ar hyn o bryd, mae 1,300 yn cael arian o’r gronfa hon yng Nghymru.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch sut y dylai'r gronfa barhau i ariannu’r rhai a oedd yn manteisio ar y Grant cynt. Roedd rhai opsiynau'n cynnwys sefydlu cynllun byw'n annibynnol yng Nghymru, tebyg i'r cynllun sydd ar waith yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a throsglwyddo cyfrifoldeb a chyllid i’r awdurdodau lleol. Mae Nathan yn ymgyrchu dros sefydlu cynllun byw'n annibynnol yng Nghymru.

Ychwanegodd RD fod ymdrechion Nathan wedi ysgogi’r Gweinidog i gynnal arolwg o’r rhai sy’n manteisio ar y Grant ar hyn o bryd, er mwyn cael syniad gwell

o’u profiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynnwys sefydliadau anabledd yn y gwaith o gynnal yr arolwg ac i helpu i’w ddosbarthu ledled Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Nathan am ei sgwrs a bydd yn holi Mark Isherwood AC ynghylch y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r mater. Anogodd bawb i gefnogi'r arolwg ac i helpu i gasglu ymatebion.

Cam i’w gymryd: CPGD i anfon yr arolwg at yr aelodau.

Partneriaeth Plant Anabl - Sally Robinson, Rheolwr Materion Cyhoeddus
Lansiwyd y Bartneriaeth Plant Anabl ym mis Chwefror 2017 yn Lloegr. Fe'i sefydlwyd o ganlyniad i broblemau’n ymwneud â gwella iechyd a gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Roedd y Bartneriaeth yn teimlo nad oedd digon o wasanaethau, nad oedd y gwasanaethau a oedd ar gael bob amser yn ddigon da a’i bod yn anoddach nag y dylai fod i deuluoedd fedru cael gwasanaethau. Mae cyfanswm o 59 o sefydliadau yn rhan o'r bartneriaeth.

Ym mis Mehefin 2017, aethant ati i lansio’u hymgyrch gyntaf, sef 'Secret Life of Us', a hynny’n bennaf i rannu straeon teuluoedd â phlant anabl. Nododd yr Ymgyrch nad oedd 40% o'r cyhoedd yn adnabod neb ag anabledd a bod 97% o'r rhieni y buont yn siarad â nhw’n teimlo nad yw'r cyhoedd yn deall y problemau sy’n eu hwynebu bob dydd.

Ym mis Tachwedd, lansiwyd eu cynllun 5 cam, sef eu maniffesto, yn Nhŷ'r Cyffredin. Maent yn ymgyrchu i’r Llywodraeth gefnogi teuluoedd sy'n magu plant a phobl ifanc anabl drwy ddilyn 5 cam. Cam 1: Sicrhau bod plant anabl yn cael blaenoriaeth; Cam 2: Adolygu'r cam ariannu presennol; Cam 3: Egluro hawliau presennol; Cam 4: Creu cronfa a Cham 5: Newid y system.

Roedd Sally yn gobeithio y byddai modd rhoi’r cynllun 5 cam ar waith yng Nghymru.

Cafwyd y sylwadau a ganlyn:
Dywedodd DR fod y trothwy ar gyfer cael gwasanaethau wedi codi ers gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Teimlai PJ ei fod yn syniad da ond na fyddai’n gweithio yng Nghymru oherwydd bod gennym ddeddfwriaeth wahanol. Roedd yn pryderu bod gwasanaethau'n cael eu torri i blant â nam ar eu golwg.

Cenhedloedd Unedig a Hawliau Pobl Anabl - Rhian Davies

Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf y llynedd ac arweiniodd at adroddiad damniol ar y sefyllfa yn y DU. Gwnaed cyfanswm o 77 o argymhellion i Lywodraeth y DU. Mae crynodeb o'r sylwadau terfynol ar gael ar-lein ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae Anabledd Cymru yn rhan o Gynghrair o sefydliadau Pobl Anabl sy'n monitro'r modd y caiff hawliau pobl anabl eu rhoi ar waith o dan y Confensiwn ac yn monitro sut mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn ymateb i'r 77 argymhelliad. Roedd RD yn siomedig nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymateb i'r adroddiad eto, er bod chwe mis wedi mynd heibio. O ganlyniad, maent wedi cyd-gyhoeddi llythyr cyhoeddus at y Prif Weinidog yn pryderu am y diffyg ymateb ac yn galw am gyfarfod. Cyhoeddwyd y llythyr ar 28 Chwefror, a dosbarthwyd copïau i bawb a oedd yn bresennol. Ni chafwyd ymateb ffurfiol hyd yma, ond roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn dweud y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ymateb yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac y bydd Rhif 10 yn ymateb i lythyr y Gynghrair maes o law.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni rhwymedigaethau'r Confensiwn yn bennaf drwy gyfrwng y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol. Adolygwyd y ddogfen yn ddiweddar a chynhyrchwyd drafft diwygiedig. Teimlai RD fod angen datblygu'r ddogfen ymhellach a chymryd camau gweithredu mwy cadarn a mesuradwy. Bydd RD yn cwrdd â Julie James AC i drafod y Fframwaith a'r Confensiwn ac i annog y Llywodraeth i gyhoeddi Fframwaith mwy cadarn. Bydd RD yn anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol at y grŵp.

Gofynnodd y Cadeirydd i RD ddiolch i'r Gynghrair am eu gwaith.

5. Lleoliadau a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:
Cynhelir y ddau gyfarfod nesaf yng ngogledd Cymru. Dyddiadau a lleoliadau i'w cadarnhau.

Cynigiwyd tlodi anabledd fel thema ar gyfer un o'r cyfarfodydd.